**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif (Cy. )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2003

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu i swyddogaethau awdurdod lleol gael eu cyflawni gan weithrediaeth i'r awdurdod onid yw'r swyddogaethau hynny wedi'u pennu yn swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod.

Mae Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 yn pennu swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod neu sydd i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth o'r fath i raddau cyfyngedig yn unig neu o dan amgylchiadau penodedig yn unig

Mae paragraffau (1) i (3) o Reoliad 4 o Reoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 yn dyrannu'r cyfrifoldeb dros amrywiol agweddau ar swyddogaethau sy'n ymwneud â llunio a pharatoi cynlluniau a strategaethau, o'r disgrifiadau a bennir yn Atodlen 3, rhwng awdurdod a'i weithrediaeth.

Mae Adran 24 o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 yn darparu ei bod yn un o ddyletswyddau awdurdodau lleol yng Nghymru i lunio a gweithredu ar y cyd strategaeth, a elwir "strategaeth iechyd a llesiant", ar gyfer iechyd a llesiant aelodau o'r cyhoedd yn ardal pob awdurdod lleol.

Mae Rheoliad 2 yn gwneud diwygiad i Atodlen 3 i Reoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001. Mae'r diwygiad hwn yn sicrhau bod y cyfrifoldeb dros fabwysiadu strategaeth iechyd a llesiant yn swyddogaeth na chaniateir iddi fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod yn unig.

Yn ychwanegol, mae'r cyfrifoldebau dros fabwysiadu Cynllun Gwasanaethau Plant a Chynllun Gofal Cymunedol yn cael eu dileu o Atodlen 3 i Reoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif (Cy. )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *2003* |
| *Yn dod i rym* | *10 Chwefror 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 13, 32, 105 a 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**).

**Teitl, cychwyn a chymhwyso**

**1.** —(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 10 Chwefror 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Diwygio Rheoliadau**

**2.** —(1) Diwygir Atodlen 3 i Reoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001(**2**) fel a ganlyn :

(a) ychwanegir y canlynol at y tabl o Swyddogaethau nad ydynt i fod yn Gyfrifoldeb i Weithrediaeth Awdurdod yn Unig :

| Cynlluniau a Strategaethau | Cyfeiriad |
|---|---|
| Strategaeth Iechyd a Llesiant | Adran 24 o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal |

(**1**) 2000 p.22.

(**2**) O.S. 2001/2291 (Cy.179) fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2002, O.S 2002/783 (Cy. 84).

(b) diddymir y cofnod "Cynllun Gwasanaethau Plant" yng ngholofn (1) a'r cyfeiriad cysylltiedig yng ngholofn (2).

(c) diddymir y cofnod "Cynllun Gofal Cymunedol" yng ngholofn (1) a'r cyfeiriad cysylltiedig yng ngholofn (2).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

Dyddiad

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.